## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar 21 Chwefror 2007 am 9.30 a.m.

### PRESENNOL

Cynghorwyr J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain-Jones, J M Davies, M Ll Davies, S A Davies, G C Evans, H H Evans, S Frobisher, I M German, M A German, D Hannam, T K Hodgson, E R Jones, H Jones, M M Jones, G M Kensler, P W Owen, N P Roberts, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams ac R Ll Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Clerc y Sir, Rheolwr Rheoli Datblygiad, Arweinydd Tîm (Rhaglenni Mawr), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU ODDI WRTH

Cynghorwyr N Hugh-Jones, J Smith ac M Webster.

### 963 MATERION BRYS

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wrth yr Aelodau ei bod yn bosibl y byddai dyddiad cyfarfod mis Gorffennaf yn newid. Y dyddiad tebygol fydd 1 Awst 2007.

### 964 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (dosbarthwyd ynghynt) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen penderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel y'u gwelwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd yn awr, a chyhoeddi cydsyniadau neu wrthodiadau cynllunio yn ôl pob achos, fel y mae'n briodol yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990 i'r datblygiad arfaethedig yn ôl y cynlluniau isod ac yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn y drefnlen ac a gyflwynir yn awr:*

(i) Cydsyniadau

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Sefyllfa</u> |
|---|---|
| 06/2006/0354/PF | Newid defnydd tir i roi estyniad i gwrtil preswyl presennol a chodi garej ar wahân/gweithdy hobi<br>**Melin Meiarth, Bryn Saith Marchog, Corwen**<br>**CANIATAU**<br>NTA Cynghorir chi bod hawl tramwy cyhoeddus yn gyfagos i'r datblygiad. Ni ddylid amharu ar y tramwy cyhoeddus yn ystod y gwaith adeiladu. |
| 17/2006/1346/PC | Ar ôl ystyried adroddiad ar ymweliad â'r safle a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2007 ac eglurhad o'r adroddiad. Parhau i ddefnyddio'r adeilad fel bwthyn (ôl-weithredol)<br>**Old Cottage yn Tŷ Hir, Pen y Stryt, Llandegla**<br>**CANIATAU** |

| | |
|---|---|
| 20/2006/1488/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol a gyflwynwyd gan yr Asiantaeth Amgylchedd<br>Codi adeilad ar wahân (gwelliant i'r cynllun a gymeradwy-wyd yn flaenorol yn unol â Chyfeir-rif 20/2003/1434/PF)<br>**Tir sy'n gyfagos i Cilgwyn, Pentre Celyn**<br>**CANIATAU**<br>Yn amodol ar amodau ychwanegol:<br>10. Gosod dulliau positif i atal dŵr wyneb rhag rhedeg ar y ffordd gyfagos cyn defnyddio'r adeilad a ganiateir yma yn unol â'r manylion i'w cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>11. Manylion system draenio aflan i adlewyrchu amodau'r pridd a'r tir dan reolaeth yr ymgeisydd i'w cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, cyn gosod unrhyw draeniau dŵr aflan.<br>*Rhesymau:*<br>10. Sicrhau nad yw dŵr wyneb o'r safle'n draenio ar y ffordd gyfagos.<br>11. Sicrhau bod dull boddhaol o ddraenio dŵr aflan. |
| 42/2006/1440/PF | Codi adeilad ar wahân a mynediad newydd i gerbydau ar 0.032 hectar o dir (cynllun diwygiedig)<br>**Tir ar gyffordd Lôn Pandy a'r Stryd Fawr, Dyserth**<br>**CANIATAU**<br>Yn amodol ar amodau diwygiedig:<br>4. Bydd y fynedfa a'r mannau parcio a throi'n cael eu hadeiladu a'u gosod yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd cyn defnyddio'r adeilad a ganiateir yma. Yna, bydd y fynedfa a'r mannau parcio a throi'n cael eu cadw ar gyfer y pwrpas y'u bwriadwyd.<br>NODIADAU NEWYDD I'R YMGEISYDD<br>1. Tynnir eich sylw at Nodiadau Atodol Priffyrdd atodedig Rhifau [1,2,4,5 a 10 NEWIDYN]<br>2. Tynnir eich sylw at y nodiadau atodedig sy'n ymwneud â cheisiadau am gydsyniad i adeiladu croesfan cerbydau dros lwybr troed/ymyl yn unol ag Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980. |
| 43/2006/1262/PF | **SIARADWR YN ERBYN MR MARK MOSSLEY**<br>Ar ôl ystyried adroddiad ar ymweliad â safle a gynhaliwyd ar 16 Chwefror a 3 llythyr ychwanegol a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Prestatyn, y Cynghorydd N Hugh-Jones a'r Cynghorydd J Cahill (Cyngor Tref Prestatyn)<br>Codi estyniadau deulawr i flaen ac ochr adeilad a chodi garej newydd<br>**14, Rhodfa Calthorpe, Prestatyn**<br>**CANIATAU** (Dymuna'r Cynghorwyr M German ac I German nodi eu bod wedi atal rhag pleidleisio)<br>Yn amodol ar amod newydd<br>6. Dim Hawliau PD ar gyfer ffenestr ar y llawr 1af. Er gwaethaf darpariaethau'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (neu unrhyw orchymyn sy'n dirymu ac yn ail ddeddfu'r gorchymyn hwnnw gyda neu heb addasiad) ni ellir gosod unrhyw ffenestr yn ychwanegol at y rhai a ddangosir ar y cynlluniau cymeradwy ar unrhyw amser yn ochr Ogleddol yr estyniad a ganiateir ar lefel y llawr cyntaf, heblaw ei fod wedi'i gytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. |
| 43/2006/1330/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol a gyflwynwyd gan E Williams, 17 Ffordd Talargoch<br>Codi estyniad llawr cyntaf (gwelliant i'r cynllun i gynnwys grisiau tân cudd).<br>**Saints Health and Fitness, 8 Ffordd Talargoch, Prestatyn**<br>**CANIATAU** |

| | |
|---|---|
| | *Yn amodol ar:*<br>Nodyn i'r Ymgeisydd:<br>Nodwyd adeg y cais cyntaf i ymestyn yr adeilad, na fyddai cynnydd yn y nifer o aelodau. Nodir yn awr ei bod yn debygol y bydd yr aelodaeth yn cynyddu. Ar hyn o bryd mae llawer o aelodau'r clwb yn parcio ar y ffyrdd cyfagos. Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn hysbysu aelodau'r clwb i ddefnyddio'r maes parcio sydd ar gael hyd y mae'n bosibl a phan bydd yn rhaid parcio oddi ar y safle, i ystyried y cymdogion wrth wneud hynny. |
| 43/2006/1437/PF | **SIARADWR YN ERBYN LINDA MURACA**<br>Ar ôl ystyried ymweliad â'r safle a gynhaliwyd ar 16 Chwefror a llythyrau ychwanegol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd N Hugh-Jones<br>Codi estyniadau deulawr ac un llawr gyda thoeon ar ongl ar ochr yr adeilad<br>**11 Rhodfa Mostyn, Prestatyn**<br>**CANIATAU** |
| 45/2006/0886/PF | Newid defnydd o HMO i 4 fflat annibynnol, newidiadau mewnol ac allanol gan gynnwys dymchwel garej/storfa i wneud man parcio ceir, storfa biniau a man sychu<br>**106 Ffordd y Cilgant, Y Rhyl**<br>**CANIATAU**<br>*Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig:*<br>3. Rhaid darparu'r storfa biniau ar y cynllun a gymeradwy-wyd cyn i unrhyw un fyw yn y fflatiau a ganiateir yma a'i gadw fel man storio biniau bob amser ar ôl hynny |
| 45/2006/1445/PF | Newid defnydd garej domestig i fod yn ystafell arddangos ar gyfer busnes addurno cacennau a newidiadau allanol<br>**28 Stryd Sisson, Y Rhyl**<br>**CANIATAU**<br>*Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig 4*<br>4. "Ni fydd yr adeiladau'n agor i gwsmeriaid y tu allan i'r oriau a'r dyddiau canlynol: ayyb" |
| 45/2006/1482/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd<br>Codi adeilad modiwlaidd ar gyfer plant cyn ysgol<br>**Ysgol Dewi Sant, Ffordd Rhuddlan, Y Rhyl**<br>**CANIATAU**<br>Caniatâd Cynllunio dros dro |
| 45/2007/0041/TP | Codi copa a gostwng copa 3 coeden castanwydden hyd at 25 y cant a thorri 1 goeden castanwydden yn Ardal G12 ar y cynllun a atodir i Orchymyn Cadw Coed Cyngor Dosbarth Trefol Y Rhyl 1951<br>**36 Y Gorlan, Y Rhyl**<br>**CANIATAU**<br>*Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig*<br>"Cyn torri'r goeden ….." |
| 46/2006/1251/PC | Parhau i ddefnyddio rhan o'r adeilad fel cyfleuster siopa ar lein ar gyfer dillad a chyfwisgoedd plant (cais ôl-weithredol)<br>**Mews Cottage yn Llys Angorfa, Ffordd Dinbych Uchaf, Llanelwy**<br>**CANIATAU**<br>*Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig 3 a 4*<br>3. "Heblaw'r ymgeisydd neu aelodau o'r teulu"<br>4. "Ni fydd yr adeilad yn agored i'r cyhoedd y tu allan ayyb<br>Nodyn i'r Ymgeisydd<br>Fel y cynghorwyd ynghynt, ystyrir bod yr arwyddion ar yr adeilad yn annerbyniol a dylid eu tynnu cynted ag sy'n bosibl. Os hoffech drafod |

| | | |
|---|---|---|
| | | arwyddion gwahanol ar gyfer y busnes, gallwch gysylltu â'r Swyddog Achos Emer O'Connor ar 01824 706783, emer.o'connor@denbighshire.gov.uk |
| | 46/2006/1413/PS | Roedd y Cynghorwyr J Butterfield a B Blakeley (Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu) yn datgan budd yn y cais canlynol ac yn gadael y Siambr yn ystod y drafodaeth arno.<br>Amrywiad i Amod Rhif 2 caniatâd cynllunio Rhif Cod 2/APH/0004/94/P i ganiatáu oriau agor hyd at 0000 awr dydd Llun - dydd Sadwrn a 2345 awr ar ddydd Sul<br>**Kebab & Burger House Llanelwy, Glan Clwyd, Stryd Fawr, Llanelwy**<br>**CANIATAU**<br>*Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig*<br>1. Caniateir defnydd o hwn rhwng yr oriau 0800 a 0000 awr yn unig ddydd Llun i ddydd Sadwrn a 0800 a 2345 ar ddydd Sul<br>*Rhesymau:*<br>1. Er budd amwynderau trigolion y preswylwyr cyfagos. |
| | 46/2006/1494/PF | Ar ôl ystyried ymweliad â'r safle a gynhaliwyd ar 16 Chwefror.<br>Newid defnydd cyn gapel y fynwent (Dosbarth D1) yn swyddfeydd (Dosbarth B1) a gwaith cysylltiol<br>**Capel y Fynwent, Ffordd y Mount, Llanelwy**<br>**CANIATAU**<br>*Yn amodol ar Amod Ychwanegol:*<br>2. Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r adeilad, gan gynnwys symud y nodweddion presennol, heblaw'r newidiadau a nodir ar y cynlluniau cymeradwy, heblaw eu bod wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>*Rheswm:*<br>3. I gadw cymeriad ac ymddangosiad yr adeilad.<br>Swyddogion yn gofyn i'r Pensaer Cadwraeth ystyried a ydy'r adeilad yn werth eu rhestru. |
| **(ii)** | **Gwrthodiadau** | |
| | 05/2006/1443/PC | **SIARADWR AR RAN DYLAN WILLIAMS**<br>Cadw estyniad un llawr i'r blaen gyda feranda drosodd a ffenestri cromen ychwanegol yn y blaen a chefn yr adeilad (Cais ôl-weithredol)<br>**Hendre, Stryd y Bryn, Corwen**<br>**GWRTHOD**<br>*Rhesymau diwygiedig am wrthod*<br>"mae'r cynnig i gadw'r drysau Ffrengig a'r estyniad un llawr gyda tho gwastad gyda nodwedd balconi cysylltiol yn groes i faen prawf (ii) Polisi GEN 6, maen prawf (iii) Polisi HSG 12, a Pholisi CON 5 ayyb"<br>Awdurdodwyd hefyd i:<br>1. Gyflwyno rhybudd gorfodi i sicrhau dymchwel yr estyniad blaen un llawr a'r feranda. I dynnu'r 2 set o ddrysau Ffrengig a roddwyd yn y 2 ffenestr gromen dalcen blaen gwreiddiol. I ail osod y llawr gwaelod, llechi'r ffenestr grom gyda 2 gyfres o ffenestri pren sash sy'n llithro a drws pren yn y fynedfa.<br>2. Ddechrau achosion erlyn neu gamau priodol eraill yn unol â'r Deddfau Cynllunio yn erbyn unrhyw berson/ bersonau y rhoddir Rhybudd Gorfodi, neu unrhyw rybudd arall, iddo/iddyn nhw neu yn erbyn y rhai y cymerir camau cyfreithiol os byddan nhw'n methu â chydymffurfio â gofynion y Rhybudd.<br>3. Cyfnod ar gyfer Cydymffurfio: 12 mis. |

43/2007/0059/PF **SIARADWR DROS JAMIE SMYTH**
Ar ôl ystyried llythyrau ychwanegol a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Prestatyn, Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych, Arolygiaeth Safonau Gofal, Mr a Mrs Holmes 47 Rhodfa Highbury, Prestatyn
Codi huanell wrth ochr cartref gofal preswyl i'w defnyddio fel lolfa i'r trigolion a lle i ymlacio.
**Cartref Gofal Preswyl, 49 Rhodfa Highbury, Prestatyn**
**GWRTHOD**

**965 MATERION GORFODAETH**

**(i)** **CYFEIRNOD:** ENF/2003/00041
**LLEOLIAD:** Tir a elwir yn Coral Springs, Ffordd Rhuthun, Llandegla Wrecsam

**TROSEDD:** Defnyddio tir i osod carafán sefydlog i fyw ynddi, heb ganiatâd

***PENDERFYNWYD*** *Rhoi awdurdod i gyflwyno Rhybudd Gorfodaeth gyda chyfnod o 3 mis i gydymffurfio yn dweud bod yn rhaid peidio â defnyddio'r garafán fel lle byw a hefyd, symud y garafán o'r tir.*

**(ii)** **CYFEIRNOD:** ENF/2007/0009

**LLEOLIAD:** 69 Stryd Fawr, Prestatyn

**TROSEDD:** Gosod estyll rholer, bocs metel cysylltiol a chanopi plastig

Dilëwyd yr eitem hon o'r agenda gan i'r estyll ffolder fod yno am fwy na phedair blynedd

**(iii)** **CYFEIRNOD:** ENF/2006/00004

**LLEOLIAD:** Tir yn Tan Y Foel, Bryneglwys, Corwen

**TROSEDDAU:** 1. Gosod Carafan a'i defnyddio i fyw ynddi
2. Gosod tanc septig heb ganiatâd

***PENDERFYNWYD*** *rhoi caniatâd i gyflwyno Rhybudd Gorfodi gyda chyfnod o Fis i gydymffurfio*

*(i) Atal y defnydd o'r garafán fel lle byw o fewn y cyfnod hwnnw*
*(ii) Symud y garafán o'r tir, hefyd o fewn y cyfnod hwnnw, a*
*(iii) Symud y tanc septig oedd yno heb ganiatâd, hefyd o fewn y cyfnod hwnnw.*

**(iv)** **CYFEIRNOD:** ENF/2006/00108

**LLEOLIAD:** 2 Penfforddwr Rhewl Rhuthun

**TROSEDD:** (1) Cynnal Busnes Trwsio o eiddo preswyl
(2) Gosod Cynwysyddion a Cherbydau yno
(3) Defnyddio tir cyfagos i osod cynwysyddion a cherbydau heb ganiatâd a'i ddefnyddio ar gyfer busnes trwsio

Awdurdodi i gyflwyno Rhybudd Gorfodi gyda chyfnod cydymffurfio o 3 mis i atal gweithredu busnes o eiddo preswyl, symud y cynwysyddion a ddefnyddir yn gysylltiedig â'r busnes hwnnw a'r cerbydau nad ydynt yn addas i'w defnyddio ar y ffordd.

**966 DYDDIAD YMWELD Â'R SAFLE**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (dosbarthwyd ynghynt) yn awgrymu dyddiad addas ar gyfer unrhyw ymweliadau â safleoedd fydd eu hangen cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor cynllunio.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau â'r safleoedd ddydd Gwener 16 Mawrth 2007. Penderfynwyd ymhellach i gyflwyno rhestr lawn o ddyddiadau'r dyfodol i'r pwyllgor nesaf.*

**967 RHESTR O GEISIADAU Y DELIWYD Â HWY YN UNOL Â'R PWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (dosbarthwyd ynghynt) am geisiadau am Ganiatad Cynllunio a benderfynwyd ganddo yn unol ag awdurdod dirprwyedig rhwng 1 a 31 Ionawr 2007.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad*

**968 RHESTR O BENDERFYNIADAU A WNAED YN UNOL Â'R PWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (dosbarthwyd ynghynt) yn gofyn am farn y pwyllgor a ddylid parhau i gynnwys y rhestr o geisiadau dirprwyedig ar agenda'r pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr arfer o ddarparu rhestr o benderfyniadau a wnaed yn unol â phwerau dirprwyedig fel rhan o adroddiad y pwyllgor Cynllunio'n gorffen ond bod Aelodau'n derbyn y wybodaeth drwy ddulliau eraill (electronig os yn bosibl).*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol oherwydd ei bod yn golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 ac 13 Rhan 4 Trefnlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**969 HYSBYSIADAU GWAHARDD**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ynglŷn â chyflwyno Hysbysiadau Gwahardd ar saith safle echdynnu mwynau yn Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi cyflwyno Gorchmynion Gwahardd i atal ail ddechrau gweithfeydd mwyn ar y safleoedd isod:*

| | |
|---|---|
| *Colomendy* | *Cadole, ger yr Wyddgrug* |
| *Pistyll Gwyn* | *Llanarmon yn Iâl* |
| *Craig Lelo* | *Gwyddelwern* |
| *Dyserth* | *Dyserth* |
| *Moel Findeg* | *Maeshafn* |
| *Tan y Graig* | *Eryrys* |
| *Wern Ddu* | *Gwyddelwern* |

*Mae pob un fel y'u dangosir ar y cynlluniau atodedig i'r atodiadau sydd gyda'r adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.05 pm

*********